O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2014 Rhif 126 (Cy. 15)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 35 (Dobshill) i Ffin Cymru/Lloegr, Sir y Fflint) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2014

Gwnaed *22 Ionawr 2014*

Yn dod i rym *26 Ionawr 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 26 Ionawr 2014 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 35 (Dobshill) i Ffin Cymru/Lloegr, Sir y Fflint) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2014.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 05:00 o'r gloch ar 26 Ionawr 2014 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau o'r gefnffordd rhwng Cyffordd 35 (Dobshill) a ffin Cymru/Lloegr yn Sir y Fflint a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau a Chyfyngiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 10, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, ar hyd y gerbytffordd tua'r dwyrain na'r gerbytffordd tua'r gorllewin ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. (1) Tra bo cerbydau wedi eu gwahardd gan erthygl 3 rhag symud yn y gerbytffordd tua'r dwyrain ond, yn unol ag erthygl 10, heb eu gwahardd yn y gerbytffordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd:

(a) mynd yn lôn allanol y gerbytffordd tua'r gorllewin i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain;

(b) mynd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain drwy'r bwlch yn llain ganol y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

(2) Tra bo cerbydau wedi eu gwahardd gan erthygl 3 rhag symud yn y gerbytffordd tua'r gorllewin ond, yn unol ag erthygl 10, heb eu gwahardd yn y gerbytffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd:

(a) mynd yn lôn allanol y gerbytffordd tua'r dwyrain i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin;

(b) mynd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin drwy'r bwlch yn llain ganol y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 10, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 10, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd sy'n fwy na 3.2 metr o led fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

7. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 10, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic pedal gael ei reidio ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

8. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 10, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

9. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 10, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5.

Cymhwyso

10. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8 a 9 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

11. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 22 Ionawr 2014

R Morgan
RICHARD MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27: amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLENNI

ATODLEN 1
Hyd y gwrthlif

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 350 o fetrau i'r gorllewin o drosbont Cyffordd 36A Cyfnewidfa Parc Manwerthu Brychdyn at bwynt 800 o fetrau i'r dwyrain o'r drosbont honno.

ATODLEN 2
Hyd y bwlch yn y llain ganol

Y bwlch yn y llain ganol rhwng pwynt 100 o fetrau i'r gorllewin o drosbont Cyffordd 36A Cyfnewidfa Parc

Manwerthu Brychdyn a phwynt 600 o fetrau i'r gorllewin o'r drosbont honno.

ATODLEN 3
Gwahardd cerbydau dros dro

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain a'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 36A.

Y darnau cyfan o'r cilfannau sy'n gyfagos i gerbytffordd y gefnffordd tua'r dwyrain rhwng pwynt 750 o fetrau i'r gorllewin o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 35 (Cyfnewidfa Dobshill) a ffin Cymru/Lloegr.

Y darnau cyfan o'r cilfannau sy'n gyfagos i gerbytffordd y gefnffordd tua'r gorllewin rhwng ffin Cymru/Lloegr a thrwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 35 (Cyfnewidfa Dobshill).

ATODLEN 4
Gwahardd dros dro gerbydau dros 3.2 metr o led, beicwyr a cherddwyr

Y darn o gerbytffordd y gefnffordd tua'r dwyrain, gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 36A, sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 36 (Cyfnewidfa Warren) i ffin Cymru/Lloegr.

Y darn o gerbytffordd y gefnffordd tua'r gorllewin, gan gynnwys y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 36A, sy'n ymestyn o ffin Cymru/Lloegr at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 36 (Cyfnewidfa Warren).

ATODLEN 5
Terfyn cyflymder 40 mya dros dro

Y darn o gerbytffordd y gefnffordd tua'r dwyrain, gan gynnwys y ffyrdd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffyrdd 35, 36 a 36A, sy'n ymestyn o bwynt 750 o fetrau o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 35 (Cyfnewidfa Dobshill) i ffin Cymru/Lloegr.

Y darn o gerbytffordd y gefnffordd tua'r gorllewin, gan gynnwys y ffyrdd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffyrdd 36 a 36A, sy'n ymestyn o ffin Cymru/Lloegr at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 35.